**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Teams, ar ddydd Mercher, Hydref 29ain, 2025, am 7.40yh.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol Cynghorwyr** | J. W. Tandy<br>D. W. Hopkins<br>Mrs A. J. Evans | S. Roberts<br>L. Wilkins | R. Barnes<br>D. Thomas |
| **Yn mynychu arlein:** | K. D. L. Davies | | |
| **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | E. W. Nicholas, | | |
| **Absennol** | L. Jones | | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR HYDREF 29ain, 2025, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.**

**826. Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

**827.**

**Trafodaeth ynghylch y ceisiadau cynllunio canlynol:**

Ystyriaethau cynllunio i dderbyn SYLWADAU:

**Cais Cynllunio Rhif PL/09914**

- Yr Hen Felin, Llandybïe, Rhydaman, SA18 2TL
- Atgyweirio ac addasu'r adeilad i ffurfio bwthyn gwyliau, gydag ardal storio ar y llawr isaf a chanolfan ddehongli yn yr adeilad ar oledd blaen agored sy'n gysylltiedig â'r adeilad. (ail-gyflwyniad o PL/05272)

**Sylwadau:** Mae'r Cyngor Cymuned yn gadarn o blaid y cais cynllunio hwn.

**Cais Cynllunio Rhif PL/10033**

- Garej Preswyl – 79 Heol Hendre, Capel Hendre, Rhydaman, SA18 3LE

**Sylwadau:** DIM SYLWADAU

**Cais Cynllunio Rhif PL/10011**

- 43 Heol Waterloo
- Anghydfod rhwng cymdogion ynghylch difrod i wal berimedr.

**Sylwadau:** Penderfynwyd bod hwn yn fater gorfodi.

**Cais Cynllunio Rhif PL/09170**

- 119 Heol Waterloo.
- Tir oddiar Heol Waterloo ar gyfer datblygiad preswyl.

**Sylwadau:** Roedd y pwyllgor o blaid y cais, ar yr amod bod materion sef ‘colli cynefin’, ‘diffyg draeniad’, y ffaith ‘nad oedd unrhyw gyfraniad arian Adran 106 yn amlwg’ a ‘diffyg adroddiad/ arolwg tir llygredig’ yn cael eu datrys.

**Cais Cynllunio Rhif PL/10061**

- Unedau 27-28 Stâd Ddiwydiannol Capel Hendre, Rhydaman, SA18 3SJ
- Amrywiol eitemau cynllunio ôl-weithredol ar gyfer estyniadau ffatri a pharcio ceir, ynghyd â gwaith tirlunio arfaethedig.

**Sylwadau:** DIM SYLWADAU.

**828.** Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach i’w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.58 yh